# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2017**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2017. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## CYMRAEG IAITH

### Adran A (Darllen): 30 marc

### Darn Darllen 1 Gemau Olympaidd Rio

A1. Pa dîm oedd yr athletwyr o Gymru yn rhan ohono? [1]

(Tîm) Prydain

✓ = 1 marc
(Casglu gwybodaeth)

A2. Faint o fedalau enillodd Unol Daleithiau America yng Ngemau Olympaidd Rio? [1]


121 neu 46 aur, 37arian a 38 efydd
✓ = 1 marc

(Casglu gwybodaeth)

### Darn Darllen 2 Proffiliau o rai o sêr Cymru

A3. Pa ffeithiau sy'n wir am Jade Jones ac Owain Doull? Rhowch linellau clir a thaclus i gysylltu pob ffaith gyda'r athletwr / athletwraig cywir. [2]

| | |
|---|---|
| Jade Jones | Y siaradwr Cymraeg cyntaf erioed i ennill medal aur yn y Gemau Olympaidd. |
| | Yr athletwr / athletwraig cyntaf o Brydain i ennill medal aur yn y gamp. |
| Owain Doull | Enillodd wobr Personoliaeth Chwaraeon y flwyddyn ddwywaith. |
| | Torri record y byd yn y ras pedwar cilomedr. |



(Casglu gwybodaeth)

Mewnbynnu marc
4 ffaith yn gywir – 2 farc
3 ffaith yn gywir – 1 marc
2 ffaith yn gywir – 1 marc
1 ffaith yn gywir – 0 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3 Rheolau Taekwondo.**

A4. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r gosodiadau cywir. [3]

| | |
|---|---|
| Mae tri phwynt yn cael eu rhoi am lorio gwrthwynebydd. | ✓ |
| Gwyn yw lliw gwregys dechreuwyr a du yw'r lliw ar gyfer arbenigwyr yn y gamp. | ✓ |
| Ni ddylai helmed y cystadleuwyr orchuddio eu clustiau. | |
| Bydd tair rownd ym mhob gornest taekwondo. | ✓ |
| Mae lliw'r gwregys yn dangos safle'r ymladdwr. | ✓ |
| Am daro'r frest y mae'r mwyaf o bwyntiau i'w hennill. | |

(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

Marc yr un am bob sylw cywir hyd at 3 marc.

A5**.** Esboniwch pam mae angen gwisgo *hogu* mewn gornest [1]

- Amddiffyn rhan uchaf y corff
- Gwarchod rhan uchaf y corff
- Y frest sy'n derbyn y mwyaf o ergydion

(Dehongli a chasglu gwybodaeth)

✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 4**

**Diolch byth bod yr Olympics `na drosodd!**

A6. Pam mae Bethan Gwanas yn falch bod y Gemau Olympaidd wedi dod i ben? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]
(Casglu gwybodaeth)
1 marc am roi ✓ yn y blwch cywir
- Bydd yn cael mwy o gwsg drwy fynd i'w gwely'n gynnar

A7. Pa **un** o'r ffeithiau yma sy'n gywir am Mo Farah? Rhowch ✓ yn y blwch cywir. [1]
(Casglu gwybodaeth)
1 marc am roi ✓ yn y blwch cywir
- Daeth o Somalia i Brydain pan oedd yn 8 oed.

A8. Pam mae Usain Bolt yn ffefryn gan filiynau o bobl? [1]

(Casglu gwybodaeth)

Dylid nodi un o'r canlynol:

- Personoliaeth
- Carisma
- Cyflymder anhygoel

✓ = 1 marc

A9. Ydy'r ffeithiau yma am athletwyr Gemau Olympaidd Rio yn wir? Nodwch a yw'r gosodiad yn gywir neu'n anghywir drwy roi ✓ yn y golofn briodol. [4]

Marc yr un am bob sylw yn y golofn gywir hyd at 4 marc.

(Dehongli a dosbarthu gwybodaeth)

| | **Cywir (✓)** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Mae Usain Bolt yn serennu yn rasys y 100 metr a'r 200 metr. | ✓ | |
| Cafodd Justin Gatland ei ddal yn cymryd cyffuriau bum mlynedd yn ôl. | | ✓ |
| Y campau gafodd fwyaf o arian gan y Loteri wnaeth orau: seiclo, rhwyfo a hwylio. | ✓ | |
| Mae athletwyr o Kenya ac Ethiopia bob amser yn gwneud yn dda yn y cystadlaethau rhwyfo. | | ✓ |
| Roedd rhai sylwebyddion yn cyfeirio at dîm Prydain fel tîm Lloegr. | ✓ | |

Ticio dwy golofn – dim marc
✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**

**Medalau Gemau Rio yn 'cuddio argyfwng yn ein cymunedau'**

A10. Pa broblemau sydd yn y byd chwaraeon yng Nghymru?
Rhowch **dair** enghraifft. [3]

(Dehongli a dadansoddi gwybodaeth)

Gellir sôn am rai o'r rhesymau canlynol:

- Toriadau yn golygu bod clybiau lleol yn dioddef
- Gordewdra yn achosi argyfwng iechyd cyhoeddus
- Brig y tabl gordewdra plant yn Ewrop
- Caeau chwarae dan fygythiad o gael eu gwerthu i greu datblygiad tai
- Cymru yn wlad o bobl sy'n hoffi gwylio chwaraeon nid cymryd rhan
- Angen gwell cydbwysedd rhwng yr arian sy'n cael ei wario ar chwaraeon elît a chael cymunedau'n fwy heini
- Ennill medalau yn flaenoriaeth / chwaraeon ar y lefel uchaf yn cael blaenoriaeth
- Llawer o arian yn mynd i helpu ychydig o bobl i ennill medalau
- Gemau Olympaidd yn peryglu chwaraeon ar lawr gwlad

✓ = 1 marc

A11. Pa **air** mae'r Aelod Cynulliad Lee Walters yn ei ddefnyddio i ddangos bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar ennill medalau? [1]

(Dehongli ac adnabod geiriau)

obsesiwn
✓ = 1 marc

**Darn Darllen 6**

A12. Beth oedd camp Angharad Mair ym Mhencampwriaethau'r Byd yn Athen? [1]

Rhedeg
✓ = 1 marc



© WJEC CBAC Cyf.

**Darnau Darllen 5 a 6**

**Medalau Gemau Rio yn 'cuddio argyfwng yn ein cymunedau'**

**a Tîm Olympaidd Cymru?**

A13. Mae Darn Darllen 5 a Darn Darllen 6 yn sôn am y Gemau Olympaidd. **Cymharwch y ddau ddarn** gan gyfeirio at

- agweddau at y Gemau Olympaidd
- sut mae'r agweddau / safbwyntiau yn cael eu cyfleu [10]

(Dadansoddi, dehongli ac egluro a chymharu dau destun)

Gellir sôn am bwyntiau fel:

| | |
|---|---|
| • Lee Walters AC yn mynegi pryder bod gormod o bwyslais a buddsoddi arian er mwyn ennill medalau yn y Gemau Olympaidd<br>• Agwedd negyddol gormod o wario ar chwaraeon elît a chyfeirio at ddiffyg gwario ar chwaraeon cyhoeddus<br>• Safbwynt personol ond gogwydd gwleidyddol hefyd<br>• Geirfa negyddol e.e. peryglu, toriadau, dioddef, argyfwng<br>• Dyfyniadau<br>• Berfau 3ydd person e.e. teimla, dywedodd, ychwanegodd<br>• Iaith fwy ffurfiol e.e. rydyn ni, ni allwn, rwy'n meddwl<br>• Idiomau e.e. ar lawr gwlad, mynd i'r afael | • Angharad Mair eisiau gweld tîm Olympaidd i Gymru<br>• Agwedd gadarnhaol, gweld posibiliadau, cyfleoedd a chynnig atebion a gwrthddadleuon<br>• Safbwynt personol a phrofiad personol<br>• Geirfa gadarnhaol e.e. cefnogi, llwyddo, balchder<br>• Cyfweliad<br>• Berfau a rhagenwau person 1af e.e. byswn a fy nyhead i<br>• Iaith fwy anffurfiol yn cynnwys ffurfiau llafar e.e. byswn, bydde, pan oni'n<br>• Geiriau Saesneg wedi'u Cymreigio e.e. licio<br>• Idiom e.e. talu ar ei ganfed<br>• Cwestiwn rhethregol yn y teitl<br>• Is-benawdau |

Gellir cyfeirio at bwyntiau eraill perthnasol.



© WJEC CBAC Cyf.

**0 marc**
os na cheir ymdrech i ateb y cwestiwn

**1-2 marc**
peth ymdrech i gymharu'r ddau destun yn fras

**3-4 marc**
ymdrech eithaf da i gymharu'r ddau destun gyda rhai sylwadau perthnasol

**5-6 marc**
cymharu'r ddau destun yn dda gyda sylwadau perthnasol am agwedd yr awduron a'r modd maent yn cyflwyno'u gwybodaeth – cynnwys ambell enghraifft/dyfyniad

**7-8 marc**
cymharu'r ddau destun yn dda iawn - agwedd yr awduron a'r modd maent yn cyflwyno'u gwybodaeth gan gynnig rhai dyfyniadau/cyfeiriadau at y testun

**9-10 marc**
cymharu'r ddau destun yn aeddfed – yn amlwg wedi deall agwedd yr awduron ac yn egluro sut maent yn cyflwyno'u gwybodaeth, gan gynnig enghreifftiau/dyfyniadau i gefnogi



© WJEC CBAC Cyf.

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |

© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

Ffurf anghywir – tynnu 2 farc
Camddehongli testun – haneru marc y cynnwys



© WJEC CBAC Cyf.